

# Y Glerorfa CERDDORFA WERIN GYNTAF CYMRU!

Detholiad o'r ymateb a fu i berfformiad cyntaf y Glerorfa yn Galeri, Caernarfon, 24 Tachwedd 2006

*"Mae hon yn garreg filltir bwysig nid yn unig i gerddoriaeth draddodiadol ond i gerddoriaeth yng Nhgymru yn gyffredinol ... mae gwawr newydd wedi torri yn nhraddodiad cerddorol Cymru."*

**Wyn Thomas, Ysgol Gerddoriaeth Prifysgol Cymru, Bangor**

*"Dwi ddim wedi gweld dim byd tebyg i hyn erioed. Ardderchog yn wir."*

**Meredydd Evans, Cwmystwyth**





*"Noson wirioneddol wych. Ro'n i mor falch 'mod i wedi medru bod yno."*

**Dwynwen Berry, Caernarfon**

*"Os byth yr a'i i'r nefoedd, fel hyn dwi isio hi fod."*

**Owen Elias Owen, Bethesda**

*"Noson hapus, hwyliog, fythgofiadwy. 'Roedd cyfeilles Saesneg efo fi, a chafodd argraff arbennig arni hithau hefyd."*

**Sarah Roberts, Pencaenewydd**

*"Roedd y brwdfrydedd a'r hwyl o'r llwyfan yn heintus ac yn cydio ym mhawb. Noson i'w chofio."*

**Mair Gibbard, Pwllheli**

*"Roedd safon y perfformio a'r amrywiaeth a gyflwynwyd yn gwneud i rywun ymfalchïo o gael bod yn rhan o'r profiad."*

**Celt a Meira Roberts, Talsarnau**



lluniau Tegwyn Roberts

*Hoffech chwi wybod mwy am* ***Clera****? Hoffech chwi wybod mwy am y* ***Glerorfa****? Ydych chi'n chwarae offeryn, ond heb ei chwarae ers talwm neu yn poeni nad ydych yn 'ddigon da' neu erioed wedi chwarae alawon yn y dull traddodiadol? Fe fedrwn ni eich helpu! Cysylltwch â ni!*


**ysgrifennydd**

Arfon Gwilym, Tyddyn Uchaf, Hen Barc, Llanllechid, Gwynedd, LL57 3DU

ffôn: 01248 601030 ebost: tyddynuchaf@ukonline.co.uk